
# COEDWIGOEDD CANASTON A MYNWAR

## gan gynnwys FFORDD Y MARCHOG

### Llwybrau Cerdded a Beicio



PLANED

## *COEDWIG CANASTON A CHOEDWIG MYNWAR*

Mae'r coedwigoedd wedi bodoli ers canrifoedd a chânt eu rhestru fel coedwigoedd hynafol. Rhestrir Coedwig Canaston gan George Owen o gyfnod Elizabeth yn 'Description of Pembrokeshire' (1603) fel un o'r coedwigoedd gorau yn y sir. Rhan o Ystâd Slebets oedd y Goedwig yn wreiddiol, a'r hyn sydd yn weddill yw rhan o Goedwig llawer mwy o goed Derw, Ynn a Chyll, a oedd yn ffynhonnell goed bwysig i'r Ystâd. Am gannoedd o flynyddoedd, defnyddiwyd coed llai ar gyfer coed tân, a gadawyd i'r coed Derw dyfu ac fe'u defnyddiwyd i adeiladu ac adeiladu llongau. Trawsnewidwyd nifer fawr o goed yn olosg â'u defnyddio fel tanwydd yn y ffwndri haearn a fodolai ger Blackpool Mill bryd hynny.

Erbyn diwedd yr wythfed ganrif ar ddeg cofnododd yr Hanesydd Richard Fenton yn Saesneg fod, 'the whole forest, without any reserve, from an over anxiousness of gain, was at once laid low.' O'r adeg hon, daeth tyfu prysglwyn yn ffordd o sicrhau cyflenwad rheolaidd o goed.

Ym 1834 mewnforiodd Barwn de Rutzen o Slebets faeddod gwyllt o Hamburg a'u rhoi yn y goedwig er mwyn diwallu ei hoffter o hela. Roedd yr elyniaeth a'r drwgdeimlad a achosodd hyn ymysg ei denantiaid yn ddigon i fygu ei fwriad i fewnforio bleiddiaid.


Rheolir y coedwigoedd heddiw gan y Fenter Goedwigaeth ac maent yn cynhyrchu coed ar gyfer ystod eang o ddibenion. Mae'r rhan fwyaf o'r goedwig yn gonifferaidd (Ffynidwydden Douglas, Llarwydden Japan a Sbriwsen Norwy) gyda rhai mannau wedi cael eu plannu â choed Ffawydd. Ceir hefyd fannau yn y coedwigoedd lle mae rhywogaethau brodorol megis coed Derw, Ynn, Cyll, Helyg ynghyd â llawer o Goed Gwasanaeth Gwyllt yn tyfu.




*Dryw*

### *Bywyd Gwyllt*

Mae llawer o adar yn bwyta, magu neu'n nythu yn y coedwigoedd - gellir gweld Titw Tomos Las, Titw Mawr, Titw Cynffon Hir, Robin Goch, Dryw, Asgell Fraith, Llinos Werdd, Dryw Melyn Cribog, Cnocell Brith a Chnocell Werdd, Boncath, Sgrech y Coed a Brân Tyddyn. Mae blodau ym mhob man ar hyd lonydd a llwybrau'r goedwig. Ar ddechrau'r gwanwyn gellir gweld Llygaid Ebrill a Blodau'r Gwynt. Dilynir y rhain gan Glychau'r Gog, Bysedd y Cŵn, Llaethlys y Coed, Teim Gwyllt a llawer o blanhigion gwrychoedd eraill. Gellir gweld sawl rhywogaeth o redyn hefyd. Yn yr hydref, bydd llawr y goedwig wedi'i orchuddio â sawl rhywogaeth o ffyngau. Bydd glöynnod byw, megis y Paun, y Glöyn Trilliw Bach, a'r Fantell Goch yn canlyn haul yr haf ar y llwybrau a'r llennyrch. Mae Gwiwerod Llwyd, Llwynogod a Moch Daear hefyd yn byw yn y Coedwigoedd.



*Ffynidwydden Douglas*

### *BLACKPOOL MILL*

S, Llu (ym misoedd yr haf), T, MP. MP ychwanegol oddi ar ac i'r de orllewin o'r ffordd gyhoeddus sydd o flaen Blackpool Mill.

O ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd Blackpool Mill yn bwysig oherwydd ei ffwrnais haearn a'i rhyd. Mae'r adeilad presennol, y felin rawn, yn dyddio'n ôl i 1813 ac fe'i hadeiladwyd gan Nathaniel Phillips, perchennog Ystad Slebets. Iddo ef hefyd y rhoddir y clod o godi pont 'i gysylltu dwy ffordd a oedd wedi bodoli ers amser maith.' Roedd y felin yn parhau i gael ei defnyddio i falu grawn hyd at 1945 ac o bosibl y tu hwnt i hynny fel storfa.

*Argymhellir copi o Arolwg Ordnans 1:50 Taflen Landranger 158 neu 1.25 Taflen Outdoor Leisure 36 ar gyfer y llwybrau canlynol. Amcangyfrif yw'r pellteroedd/amseroedd a roddir.*

### LLWYBRAU COEDWIG BYRRACH O BLACKPOOL MILL

#### *Llwybr Natur Melin Gribo Hygyrch i'r Anabl*

*Tua 500 llath, 300 medr syth.*

Llwybr ac iddo wyneb caled a gwastad gyda nifer o fannau mynd heibio a throi, sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Mae'r llwybr yn arwain drwy goedwig, gan ddilyn olion hen ffos neu sianel ddŵr, i lannau afon y Cleddau Wen.

#### *Llwybr Coedwig Toch a Slebets*

*Tua 3m/4.8km syth, 1 awr.*

Croeswch y bont ger Blackpool Mill, trowch i'r dde a dilynwch lan ogleddol afon y Cleddau Wen. Â'r llwybr hwn â chi heibio i Dŷ Slebets, sy'n blasty preifat gwych o'r 18fed Ganrif, i adfeilion Hen Eglwys Slebets - cyn Gomandwr Ysbytwyr y Marchog. Sefydlodd yr Ysbytwyr ganolfan yn Slebets ar ddiwedd y 12fed Ganrif. Gweithredodd y Comandwr fel pencadlys ar gyfer eu gweithrediadau yng Nghymru, gan weinyddu eu hystâdau eang yn esgobaeth Tyddewi. Yr oedd hefyd yn gwasanaethu fel ysbyty ar gyfer y llesg ac fel canolfan recriwtio ar gyfer y Crwsadau, er mai darparu llety i bererinion a ddatblygodd i fod yn flaenoriaeth ganddynt ac roeddent yn enwog am hynny yn yr Oesoedd Canol. Gyda Diddymiad y Mynachlogydd o dan Harri'r VII, aeth ystadau'r Ysbytwyr i ddwylo'r Goron. Prynwyd Slebets ei hun gan ddau frawd i'r Esgob Barlow o Dyddewi. Daeth yr eglwys yn eglwys plwyf Slebets ac aeth yn segur tua 1848.

#### *Llwybr Coedwig Mynwar y Comisiwn Coedwigaeth*

*Tua 1m/1.6km cylch, 30 munud. Dilynwch y pyst pren â chylch glas.*

Mae sawl llwybr cylch yn troi tua'r dwyrain a'r gorllewin i mewn i Goedwig Mynwar oddi ar y ffordd gyhoeddus sy'n rhedeg drwy'r Goedwig. Gellir cael mynediad i'r llwybrau ychydig i'r de orllewin o Blackpool Mill.



*Eglwys Mynwar*

## *Llwybr Tŷ'r Chwiorydd*

*Tua 3m/4.8km syth, 1 awr*



Golygfa yn y Goedwig

Mae'r llwybr hwn yn dilyn rhan fechan o Lwybr Gororau Landsker (mae taflen ar wahân ar gael) sydd yn llawer hirach. Gan sefyll gyda Blackpool Mill y tu ôl i chi, trowch i'r dde yn syth, croesi'r maes parcio ac ewch drwy'r llidiart yn y gornel. Ewch yn syth ar draws y cae a thros y gamfa, ac yna ewch ar hyd y llwybr pren sy'n eich arwain i mewn i'r Goedwig. Bydd y llwybr hwn yn eich arwain heibio'r pwynt gwylio dros y Cleddau Wen ac yn eich arwain i ***Eglwys Mynwar,*** a sefydlwyd gan y Marchog Normanaidd Lodomer ac a roddwyd i'r Marchogion yn Slebets ym 1150. Ar y ffordd byddwch yn mynd heibio i adfeilion Tŷ'r Chwiorydd. Fe'i gelwid yn Dŷ Systerne yn y cofnodion cyfeirio cynharaf. Nid oes sicrwydd ynglŷn â swyddogaeth gwreiddiol yr adeilad ond yn nechrau'r cyfnod modern roedd yn gartref i ŵr bonheddig. ***Mae'r adfeilion yn beryglus ac ni ddylid mynd i mewn iddynt.***

## LLWYBRAU COEDWIG CANASTON

Mae llwybrau troed niferus yn arwain oddi ar Ffordd y Marchog (y ffordd gyhoeddus heb wyneb caled sy'n arwain drwy Goedwig Canaston) gan ei gwneud yn bosibl cynllunio amrywiaeth o lwybrau cylch o wahanol hyd - o ychydig gannoedd o lathenni/medrau i sawl milltir/cilomedr.

I'r de o Ffordd y Marchog mae'n bosibl archwilio llwybrau sy'n arwain at lawer o adeiladau hynafol. Mae ***Capel Cil-maen*** yn dyddio o'r 13eg Ganrif. Cafodd ei ailadeiladu'n sylweddol yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. ***Mae'r adfeilion bellach yn beryglus ac ni ddylid mynd i mewn iddynt.*** Bu ***Gwersyll Molleston*** unwaith yn anheddfa gaerog o'r Oes Haearn, ac mae'n bosibl mai dyma safle Gorsedd Arberth y cyfeirir ati yn y casgliad chwedlau Cymreig y Mabinogi. Yng Ngorsedd Arberth y gwelodd Pwyll, Pendefig Dyfed, y dywysoges hardd Rhiannon wedi ei gwisgo mewn aur ac yn marchogaeth ar gefn ceffyl gwyn. Dilynodd Pwyll hi ond ni allai ei chyrraedd waeth pa mor gyflym yr oedd ei geffyl yn carlamu a waeth pa mor araf yr oedd ei cheffyl hi yn symud. Fel ym mhob chwedl dda, fodd bynnag, ceir diwedd hapus i'r stori - priododd Pwyll a Rhiannon a byw'n hapus byth oddi ar hynny.

I'r gogledd o Ffordd y Marchog, dewch at weddillion Caer arall o'r Oes Haearn - ***Gwersyll Cilfoden.***



*Wrth i Rhiannon Gysgu*

## LLWYBRAU BEICIO YNG NGHOEDWIG CANASTON A CHOEDWIG MYNWAR

*Mae panel gwybodaeth wedi ei leoli ar groesfan yr A4075 (Llety'r Eryr)*

***Llwybrau Beicio/Marchogaeth heb wyneb caled o Blackpool Mill***

*Hyd at 3m/4.8km syth. Cyfeirbwyntiau coch. Gall y llwybrau marchogaeth hyn heb wyneb caled fod yn fwdlyd iawn mewn tywydd gwlyb. Dylai beicwyr roi rhybudd clywadwy pan welant geffylau o'u blaenau a dod oddi ar eu beic i fynd heibio iddynt.*



Llaethlys y Coed

### *Coedwig Canaston*

O'r ffordd sy'n mynd heibio i flaen Blackpool Mill (gyda'ch cefn at y Felin) trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr sy'n arwain i Goedwig Canaston. Byddwch yn ofalus wrth groesi ffordd brysur yr A4075 ychydig heibio i Lety'r Eryr. Mae'r llwybr yn arwain cyn belled â Chapel Cil-maen lle mae'n troi i'r chwith i Ffordd y Dyffryn neu i'r dde i Groes Molleston.



Clychau'r Gog

### *Coedwig Mynwar*

Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr sy'n arwain i mewn i Goedwig Mynwar ac ymlaen i Fferm Cott.

## LLWYBRAU BEICIO TEULUOL O BLACKPOOL MILL A LLETY'R ERYR

*Cyfeirbwyntiau Gwyrdd*

***Blackpool Mill.*** *1m/1.6km syth*


Gyda'ch cefn at Blackpool Mill, trowch i'r chwith, croeswch y bont a throwch i'r dde. Mae'r llwybr hwn yn arwain drwy Goedwig Toch.

***Llety'r Eryr*** (croesfan yr A4075). *3m/5km cylch*

Mae'r llwybr yn defnyddio ffyrdd y goedwig sy'n rhedeg drwy Goedwigoedd Canaston ac ychydig iawn o gerbydau sy'n eu defnyddio ac mae rhan ohono yn llwybr gydag wyneb caled a adeiladwyd yn arbennig, sy'n cynnwys 'sblash dŵr' ar draws nant fechan.

## FFORDD Y MARCHOG - llwybr syth 9.3m/15km

*Mae Ffordd y Marchog yn ymestyn o bellteroedd llanw uchaf Afon Cleddau Wen i bentref arfordirol Amroth. Gellir ei gerdded fel un darn syth (neu fwy). O'r cychwyn, yn Blackpool Mill, mae'n 4m/6.5km, 2 awr i Dredeml a 2.5m/4km, 1½ awr, arall i'r Eglwys Lwyd. O'r Eglwys Lwyd, mae'n 2.8m/4.5km, 1½ awr, i ddiwedd y llwybr yn Amroth. Gellir cael cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus yn Nhredeml, Yr Eglwys Lwyd ac Amroth.*



Capel Summerhill - sydd ychydig i'r gorllewin o Ffordd y Marchog

*Esgyniadau 249m (817tr) a disgyniadau 248m (814tr). Gwahaniaeth uchder yw 1m (esgyniad). Mae 15 camfa, 9 llidiart a 2 bont a 4 rhyd - gyda phont gerdded dros 2*

*ohonynt. Nid oes camfeydd na chlwydi rhwng Blackpool Mill a Thredeml ac mae'r arwynebedd yn weddol gadarn ar y cyfan. Ar y rhan rhwng Tredeml ac Amroth, rhaid croesi ffos rhwng Tredeml a'r Eglwys Lwyd a dylid bod yn arbennig o ofalus wrth groesi ffordd brysur yr A477 rhwng yr Eglwys Lwyd a Colby.*

*Mae Ffordd y Marchog hefyd yn ffurfio rhan o'r llwybr cylch hir sy'n cynnwys: Ffordd y Marchog, Amroth i Benfro (Llwybr Arfordir Sir Benfro), Penfro i Blackpool Mill (Llwybr Daugleddau) 85m/136km.*

Mae ffordd y Marchog yn mynd drwy sawl lle sydd â chysylltiad agos â Marchogion y Deml a Marchogion Sant Ioan (neu Ysbytwyr). Daeth y marchogion hyn i'r amlwg yn ystod y 12fed Ganrif drwy ddod yn rhan o'r Crwsadau. Yn hytrach na rhyfela ym Mhalesteina a gofalu am gleifion y Crwsadau, dechreuasant ganolbwyntio ar amddiffyn pererinion ledled Ewrop. Daeth Marchogion y Deml i ben ym 1312.


Gan sefyll gyda Blackpool Mill y tu ôl i chi, trowch i'r chwith ar hyd y ffordd sy'n mynd heibio o flaen y Felin. Ychydig lathenni i lawr y ffordd, fe welwch lwybr ar y dde sy'n arwain i mewn i'r Coedwigoedd - dyma ddechrau Ffordd y Marchog.

### *TREDEML*

Tredeml yw lleoliad Castell Dedfryd, a fu unwaith yn gastell bach â ffos o'i amgylch y credir iddo gael ei adeiladu o goed gyda phalisâd pren o amgylch y lan allanol. Mae'n debyg i'r Castell gael ei adeiladu gan y Normaniaid yn yr ail ganrif ar ddeg ond efallai bod cysylltiad rhyngddo â Marchogion y Deml a roddodd yr enw i'r dref (Tredeml). Mae'r pentref yn goffâd i bresenoldeb Marchogion y Deml yng Ngorllewin Cymru, ardal lle nad oedd ganddynt lawer o eiddo. Trosglwyddwyd y tiroedd a'r eiddo i berchnogaeth y teulu Mortimer, Arglwyddi Arberth, cyn diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Adeiladwyd eglwys bentref Sant Ioan ym 1859.

### YR EGLWYS LWYD *(LUDCHURCH)*

Mae'r eglwys, sy'n gysegredig i Sant Elidir, yn enghraifft wych o adeiladwaith Normanaidd. Saif bellach ar glogwyn, wedi ei hynysu gan ganrifoedd o gloddio cerrig calch. Mae tarddiad enw Saesneg y pentref yn ansicr. Un awgrym yw y daw o enw personol Saesneg Canol 'Loud'. Ar y llaw arall, honnir fod yr enw yn deillio o'r enw Cymraeg 'Yr Eglwys Lwyd', a gafodd ei lygru'n Ludchurch.




*Golygfa ym mhentref Yr Eglwys Lwyd*

### COLBY

Cafodd y cwm cysgodol hwn o goedwigoedd a gerddi tirlun ei gloddio'n helaeth ar gyfer glo caled a mwyn haearn hyd at y ganrif ddiwethaf. Credir fod y goedwig yn weddillion coedwig ganoloesol fawr Coed Traeth rhwng Amroth a Saundersfoot. Daw enw'r ystâd oddi wrth John Colby a brynodd dir yma ym 1787 ac a adeiladodd Borthdy Colby ym 1803. Mae rhai o nodweddion y tŷ yn deillio o gynlluniau gan John Nash. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen yr ystâd erbyn hyn a hwy sydd yn ei rheoli.

**AMROTH**

Rhoddwyd eglwys Amroth a hanner can erw o dir cysegredig i'r Ysbytwyr tua 1150. Yr oedd Dyfarniad Pabol yn galluogi'r Ysbytwyr i roi lloches i bob drwgweithredwr ac eithrio'r rhai a oedd yn euog o frad a halogiad, ar yr amod y byddai'r drwgweithredwr yn mynd ymlaen i borthladd cyfleus ac yn gadael yr ymerodraeth am byth.



*Amroth*

# Y Côd Cefn Gwlad

## *Parchwch - Diogelwch - Mwynhewch*

- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi’n eu cael nhw
- Ewch â’ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwyllt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

Design by Waterfront Graphics
llustrations by Geoff Scott, Neil Ludlow & Margaret Jones
SPARC ©2001